Adroddiad ar ystyriaeth y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar Ymgynghoriad Defra ar Fesur Morol

Cefndir

1. Ar 11 a 24 Mai 2006, trafododd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ymgynghoriad Defra ar Fesur Morol, a gyhoeddwyd ar Fawrth 29. Ar Fai 11 trafododd egwyddorion cyffredinol yr ymgynghoriad a Mesur drafft. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y prif ddeiliaid diddordeb er mwyn ffurfio barn ar Fai 24.

2. Y sefydliadau oedd yn cael eu cynrychioli ar 24 Mai oedd:

   - Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
   - Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru
   - Cyswllt Amgylchedd Cymru
   - Cyngor Cefn Gwlad Cymru

   Hefyd cyflwynodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru dystiolaeth ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Mae'r dystiolaeth yn atodol i'r adroddiad hwn, fel mae trawsgrifiadau o drafodaethau'r Pwyllgor ar yr ymgynghori.

Ystyriaeth

3. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli'r angen am Fesur Morol, gan nad oes ar hyn o bryd strategaeth gyffredinol i reoli'n moroedd. Mae felly'n gweld yr ymgynghoriad hwn a Mesur y dyfodol fel cyfle arwyddocaol i roi sylw i gyflwr presennol yr amgylchedd morol, ac, ar amser datblygiad cynyddol, i geisio systemau mwy integredig a syml.

4. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ei drafodaethau ar y materion a godwyd yn adrannau 7 i 11 y ddogfen ymgynghorol a'u goblygiadau ar gyfer Cymru.

Egwyddorion Cyffredinol

5. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fod ar hyn o bryd gymysgedd cymhleth o bwerau sydd wedi'u datganoli a rhai nad ydynt wedi'u datganoli yn y byd morol. Felly mae'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i'r broses ddatganoli a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghorol a'r gydnabyddiaeth mai gyda Llywodraeth y Cynulliad fydd y penderfyniad a yw am ystyried bwrw ymlaen gydag unrhyw rai o gynigion yr ymgynghoriad a'r ffordd mwyaf priodol i wneud hynny o fewn ei allu.

6. Yng ngoleuni hyn, a'r ymrwymiad ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU, *Gwell Trefn Lywodraethu i Gymru* a Mesur Llywodraeth Cymru sydd yn

y Senedd ar hyn o bryd, wrth ddrafftio deddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud â Chymru y bydd disgresiwn mwyaf yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad i wneud ei ddarpariaethau ei hun gan ddefnyddio ei bwerau is-ddeddfwriaeth, **mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i wneud y cyfan y gall i sicrhau'r hyblygrwydd gorau posibl i ddatblygu polisi yng Nghymru gan ddefnyddio pwerau fframwaith**. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor yn nodi ei ddymuniad i ddylanwadu ar is-deddfwriaethau sy'n dilyn Deddf Forol yn y dyfodol.

Rheoli Pysgodfeydd Môr

7. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fod rheoli pysgodfeydd yn fater a ddatganolwyd ac fod Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar wedi ymgynghori gyda'r diwydiant pysgota ac eraill sydd â diddordeb ar strategaeth pysgodfeydd Cymru gyfan. **Bydd y Pwyllgor yn craffu ac yn ceisio dylanwadu ar y strategaeth.**

8. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig dangosodd Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyswllt Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yr angen am fframwaith ddeddfwriaethol newydd i roi sylw i'r gwendidau, y bylchau a'r diffygion yn y system bresennol sydd bellach wedi dyddio. Yr oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd yn credu fod y ddeddfwriaeth bresennol yn gosod cyfyngiad ar ddyfodol pysgodfeydd gyda'r glannau ac i sicrhau fod pysgodfeydd a buddiannau cadwraeth natur yn gallu bodoli ochr yn ochr. **Mae'r Pwyllgor yn cytuno gyda safbwyntiau'r tystion ac mae'n gofyn fod darpariaethau yn cael eu cynnwys yn y Mesur er mwyn adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol sydd bellach wedi dyddio.**

Cynllunio yn yr Ardal Forol

10. Yn y dystiolaeth gyfan, yr oedd cefnogaeth unfrydol i gyflwyno system Cynllunio Morol Gofodol (MSP), ar yr hwn meddir, y bydd pob cynnig arall ar gyfer gwell rheolaeth o'r arfordir a'r môr yn dibynnu. **Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r farn hon.**

11. Dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wrthym y dylai'r Cynllunio Morol Gofodol gysylltu'n agos gyda Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol. Awgrymodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n benodol y byddai ymestyn Cynllun Gofodol Cymru i 12 milltir forol er mwyn pontio'r rhyngwyneb tir-môr yn cyfrannu'n sylweddol tuag at y Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.

12. Dywedodd tri o'r pedwar sefydliad oedd yn cael eu cynrychioli yn y sesiwn dystiolaeth eu bod yn cefnogi Opsiwn 4 yn yr ymgynghoriad, y dylai system statudol o Gynllunio Morol Gofodol fodoli.

13. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Phartneriaeth Arfordir a Môr Cymru wrth y Pwyllgor am yr angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gael mewnbwn sylweddol i gynllunio gofodol morol y Deyrnas Unedig,

gyda Chyswllt Amgylchedd Cymru yn gweld Cynllunio Morol Gofodol Cymru o fewn Cynllun Morol Gofodol y Deyrnas Unedig.

Trwyddedu Gweithgareddau Morol

14. Yr oedd pawb a roddodd dystiolaeth yn cymryd y farn fod y system gydsynio bresennol yn gymhleth a'i bod angen ei diweddaru. Aeth un tyst mor bell â dweud ei bod yn "llanast llwyr". Dywedwyd wrth y Pwyllgor na fyddai rhoi mwy o eglurder a thryloywder yn rhwydd ond y byddai hynny o fudd i ddatblygwyr, rheolyddion a'r amgylchedd forol.

15. O'r pedwar opsiwn a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, yr oedd y tystion yn ffafrio Opsiwn 4, sy'n drefn integredig. Byddai'r opsiwn hwn yn creu dull gweithredu mwy eang, integredig a byddai mae'n debyg angen un corff rheolaethol. Awgrymodd tystion efallai y byddai'n well defnyddio dull gweithredu cam wrth gam i gyflawni hyn. **Cred y Pwyllgor fod hwn yn ymarferol ac yn briodol ac felly mae'n cefnogi datblygiad cam wrth gam y drefn integredig a gynigiwyd yn Opsiwn 4.**

16. Codwyd y mater a allai swyddogaethau yn y maes hwn sydd ar hyn o bryd yn gyfrifoldeb adrannau'r Deyrnas Unedig gael eu datganoli a chafodd rywfaint o gefnogaeth, er na ddaethpwyd i unrhyw gasgliad.

17. Awgrymodd Asiantaeth yr Amgylchedd fod angen un corff i gynllunio a thrwyddedu gwaredu dŵr gwastraff.

Gwella Cadwraeth Natur Morol

18. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gydnabyddiaeth yn y ddogfen ymgynghori y byddai datganoli cyfrifoldebau ar gyfer cadwraeth y natur forol mewn dyfroedd tiriogaethol yn rhoi'r cyfle i weinyddwyr weithredu dulliau gwahanol o gyflawni amcanion y Mesur Morol. **Mae'r Pwyllgor yn pwyso ar Lywodraeth y Cynulliad i ddwyn ymlaen gynigion ar gyfer dyfodol cadwraeth forol mewn dyfroedd Cymreig cyn gynted ag sy'n bosibl yn dilyn cyhoeddi'r Mesur Morol.**

19. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn cefnogi dull gweithredu seiliedig ar ecosystem mwy holistig gyda golwg ar gadwraeth natur er mwyn sicrhau fod rhai cynefinoedd a rhywogaethau pwysig yn derbyn mwy o warchodaeth.

20. Ar fater y dull ecosystem, dywedodd Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru wrthym y dylai fynd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol a chynnwys ffiniau proses naturiol, tra'r oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn galw am sefydlu cyfres o amcanion cyffredinol ar gyfer gwarchod ecosystemau morol.

21. Nid oedd un farn bendant a oedd angen dynodi safleoedd newydd. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru wrthym efallai y byddai'n well

ystyried rheoli gweithgareddau o fewn safleoedd niferus arfordir Cymru. Yr oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cytuno ond cadwodd y cyfle i greu safleoedd pe byddai rhywbeth newydd yn cael ei ddarganfod.

Y Posibiliadau ar gyfer Sefydliad Rheoli Morol newydd

22. Yr oedd llawer o'r drafodaeth yn ystod ein sesiwn dystiolaeth yn canolbwyntio ar y cynnig ymgynghori i greu sefydliad rheoli morol newydd: ar ba ffurf y bydd y sefydliad; pa swyddogaethau y dylai ymgymryd â hwy; ble y dylai gael ei leoli; p'un ai a fyddai'n cael arian a chefnogaeth briodol.

23. Gwnaeth y Gweinidog ei safle'n glir a dweud wrthym y credai y byddai asiantaeth forol yng Nghymru yn "groes-ddiwylliant". Yr oedd yr holl dystion yn ymwybodol o'r safiad hwn a chymhelliant Llywodraeth y Cynulliad i integreiddio datblygu polisi a chyflawni polisïau. Nododd rhai, fodd bynnag y risg o weithredu sefydliad rheoli morol o fewn y Llywodraeth ac y gallai olygu y byddai llai o dryloywder ac atebolrwydd.

24. Yr oedd Cyswllt Amgylchedd Cymru â diddordeb arbennig mewn creu sefydliad rheolaeth forol a chyflwynodd dri opsiwn i'r Pwyllgor: corff Cymru a Lloegr; sefydliad Cymru yn unig; ac ystod o swyddogaethau'n cael eu gwneud oddi mewn i Lywodraeth y Cynulliad. Dywedodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ei farn wrthym y dylai unrhyw drefniadau yng Nghymru ac yn Lloegr fod yn gyflenwol i'w gilydd.

24. Gyda golwg ar swyddogaethau, yr oedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dal y dylai un corff wneud swyddogaethau cynllunio morol gofodol ac yn cydlynu trefnau trwyddedu priodol. Nid yw'r Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru wedi mynegi barn ar y mater.

25. Yr oedd trafodaeth ar y dystiolaeth a ddarparwyd yn ffafrio corff Cymru'n unig mae'n ymddengys.

Annex 1

Tystiolaeth Ysgrifenedig

Cyflwynodd Asiantiaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru dystiolaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg.

I'R PECYN YMGYNGHORI YNGHYLCH Y MESUR MOROL: CYFLWYNIAD GAN ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU

Fel prif gynghorydd y Llywodraeth ynghylch yr amgylchedd, rydym yn croesawu'r cyfle hwn i dystiolaethu ger bron y Pwyllgor Cynllunio'r Amgylchedd a Chefn Gwlad ynghylch ymgynghoriad Defra ar y Mesur Morol. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymateb yn ffurfiol i Defra ynghylch yr ymgynghoriad a byddwn yn anfon copi o'r ymateb hwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae ein tystiolaeth yn ystyried:

1. Pam y credwn fod angen Mesur Morol
2. Pam fod gennym ddiddordeb mewn Mesur Morol
3. Elfennau'r ymgynghoriad ar y Mesur Morol

1. Pam y credwn fod angen Mesur Morol

Mae angen deddfwriaeth newydd er mwyn mynd i'r afael â chyflwr cyfredol yr amgylchedd morol, diffyg cynllunio morol, ac er mwyn symleiddio trwyddedu.

a) Cyflwr cyfredol yr amgylchedd morol

Yn Nhachwedd 2005, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd ei Hadroddiad ynghylch Cyflwr yr Amgylchedd Morol[1]. Dangosodd ddarganfyddiadau'r adroddiad fod ein môr, o safbwynt y chwe phwnc pwysig a rychwantwyd (newid yn yr hinsawdd, datblygu, llygredd, llifogydd ac erydiad, pysgodfeydd a bywyd gwyllt) , mewn cyflwr gwael neu ansicr a bod y rhagolygon ar gyfer y dyfodol, gan mwyaf, yn ansicr. Mae'r darganfyddiadau hyn yn cefnogi astudiaeth Llywodraeth y DU a'r adrannau gweinyddol datganoledig ynghylch cyflwr amgylchedd morol y DU 'Charting Progress: an integrated assessment of the state of UK seas' [2].

Mae newid hinsawdd yn digwydd ac mae hyn yn newid ac yn effeithio ar yr amgylchedd morol. Daw pwysau hefyd o ganlyniad i ddatblygu a defnyddio ein dyfroedd. Mae oddeutu 60% o boblogaeth Cymru'n byw yn y parth arfordirol; lleolir porthladdoedd pwysig ar yr arfordir sy'n trafod cyfeintiau mawr o gludiant rhyngwladol; mae llawer o alw am bysgod; mae cynhyrchiant olew a nwy yn gostwng a disgwylir datblygiadau ynni adnewyddadwy pwysig.

Mae'r pwysau hyn yn achosi nifer o effeithiau.

Mae newid yn yr hinsawdd yn achosi i lefelau'r môr godi o amgylch Cymru a Lloegr ar raddfa o oddeutu 1mm y flwyddyn gyda chynnydd dilynol yn y perygl o lifogydd. Rhagwelir bydd y raddfa newid hon yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r môr wedi cynhesu'n ogystal gan oddeutu 1ºC yn ystod y ganrif ddiwethaf ac mae'n dyfod yn fwy asidig. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar stociau pysgod ac yn newid sut caiff bywyd gwyllt y môr ei ddosbarthau o amgylch ein harfordiroedd.

Mae llawer o'r pysgodfeydd yn y DU ac ar draws y byd yn dirywio a, thros y degawd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o rywogaethau wedi gostwng i'r lefelau isaf yn eu hanes. Yn ogystal â'r dirywiad yn stociau pysgod ceir effeithiau eraill. Er enghraifft, mae dosbarthiad penfreision a rhywogaethau dŵr oer eraill yn symud tua'r gogledd, mae llusgrwydau a threillrwydau pysgota yn gwneud niwed i gynefinoedd sensitif ac mae'r nifer o lyswennod ifainc sy'n dychwelyd i Gymru a Lloegr wedi lleihau gan 70 y cant ers dechrau'r 1980au.

Gwnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd gynnydd sylweddol o ran glanhau gollyngiadau elifiant i'n moroedd arfordirol. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud er mwyn cyfyngu ar ollwng cemegolion peryglus a fedrant halogi gwaddodion, pysgod-cregyn a physgod mewn rhai morydiau. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn mynnu ein bod yn mynd i'r afael â llygredd i gyflawni statws ecolegol da ym mhob un o'n dyfroedd erbyn 2015. Mae hefyd yn rhoi ysgogiad o'r newydd i ni fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig, sy'n berygl ar gyfer nifer fawr o forydiau.

b) Diffyg system cyd-drefnus o gynllunio morol

Ar hyn o bryd nid oes deddfwriaeth gydlynol yn bodoli a fyddai'n caniatáu i'r amgylchedd morol gael ei reoli neu ei warchod mewn dull strategol, trefnus. Cynllunnir a chaniateir ar gyfer y môr ar sail sectoraidd ac fe'i gwneir heb roi fawr ddim ystyriaeth i effeithiau eraill.

O dan y dull cyfredol o fynd ati, mae pob sector yn ceisio macsimeiddio ei ddull ei hun o ddefnyddio'r amgylchedd morol. Yn hanesyddol, gwnaethpwyd gweithgareddau o'r fath heb roi fawr ddim ystyriaeth i'r canlyniadau, gan gynnwys eu heffeithiau cronnol.

Mae risg ac ansicrwydd cynllunio yn gosod costau sylweddol ar ddatblygwyr potensial, sy'n achosi gwrthdaro diangen, arafu prosiectau ac atebion sydd, o bosib, yn anffafriol. Er enghraifft 'gwrthdaro diweddar rhwng gwynt alltraeth a chadwraeth natur, pysgodfeydd a mordwyo, sydd wedi arafu prosiectau a chreu atebion sydd, o bosib, yn anffafriol'[3].

Byddai Cynllunio Gofodol Morol, gyda pholisïau a chyfarwyddyd cynllunio cydlynol, yn lleihau materion ansicr ynghylch datblygu a chreu trefn mwy effeithiol ar gyfer rheoli'r môr.

c) Trwyddedu gweithgareddau morol sy'n ddryslyd ac yn ddigyswllt

Mae'r agwedd sectoraidd tuag at reoli'r môr wedi arwain at nifer fawr o gyrff yn meddu ar gyfrifoldebau statudol dros reoleiddio a gorfodi trwyddedau a chaniatadau gwahanol. Achosodd hyn rywfaint o ddyblygu a llawer o ddryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth.

Mae'r system bresennol yn gymhleth ac yn ansicr ac oherwydd hyn rydym yn cefnogi symleiddio'r broses o ganiatáu a thrwyddedu. Medrai hyn fod o fudd i ddatblygwyr, rheolyddion a'r amgylchedd morol.

2. Pam fod gennym ddiddordeb mewn Mesur Morol

Gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yw i warchod yr amgylchedd a'i wneud yn lle gwell. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein rolau o reoleiddio, rheoli, cynghori a dylanwadu. Mae'r rhan fwyaf o'n cyfrifoldebau am yr amgylchedd morol yn gorwedd yn y parth lle mae'r tir yn cwrdd â'r môr. Dyma'r parth lle ceir yr effaith fwyaf. Oherwydd hyn, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o reoli arfordiroedd, moroedd a morydiau Cymru mewn dull cynaliadwy ac mae ein cyfrifoldebau eang yn ein gosod mewn sefyllfa unigryw o safbwynt diogelu'r amgylchedd morol. Mae ein Strategaeth Forol ddiweddar yn gosod allan ein blaenoriaethau a'n rôl yn y gwaith o reoli'r arfordiroedd a moroedd Cymru yn y dyfodol[4].

Mae ein cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys:

- rheoli'r rhan fwyaf o'r perygl o lifogydd mewn dyfroedd mewndirol ac arfordirol;
- bod yn Awdurdod Cymwys ar gyfer nifer o Gyfarwyddebau'r UE, gan gynnwys y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr hyd at 1 filltir fôr o'r lan;
- rheoleiddio gweithgareddau penodol a gosod a gorfodi safonau amgylcheddol, gan gynnwys trwyddedu gollyngiadau dŵr gwastraff hyd at 3 milltir fôr o'r lan;
- rheoleiddio pysgodfeydd salmonidau mudol a llyswennod ar draws dyfroedd mewndirol ac arfordirol hyd at 6 milltir fôr o'r lan;
- grymoedd pysgodfeydd môr mewn morydiau penodol.

Mae gennym hefyd rôl yng nghyswllt:

- bioamrywiaeth a chadwraeth;mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd sy'n dibynnu ar yr amgylchedd dyfrol;
- hamdden a mordwyo; mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo chwaraeon sy'n gysylltiedig â dŵr a gweithgareddau hamdden mewn dyfroedd mewndirol a arfordirol a ni yw'r Awdurdod Porthladd ar gyfer Bwrdd Gwarchod Dyfrdwy;
- cynllunio a rheoli adnoddau dŵr, gan gynnwys rheoleiddio llifoedd i forydiau ac ardaloedd ar yr arfordir drwy ein system o drwyddedau tynnu dŵr.

3. Elfennau'r Ymgynghoriad ynghylch y Mesur Morol

Cynllunio Gofodol Morol

Mae cyflwyno system o Gynllunio Gofodol Morol (CGM) yn hanfodol i'r Mesur Morol. Mae pob un o'r cynigion eraill ar gyfer rheoli'r arfordiroedd a'r moroedd yn well yn dibynnu ar broses CGM ag iddi sylfaen gadarn.

Dymunwn weld system CGM sy'n cynnwys cyfraith gref, gyson a fydd yn disodli'r rheoleiddio digyswllt a dryslyd a geir ar hyn o bryd. Rhaid i bob un o'r defnyddwyr a'r rheolyddion ddeall y gyfraith newydd yn hawdd a sut gaiff ei chymhwyso.

Ein dymuniad ni yw i GGM ddarparu:

1. Cynllun sy'n gosod targedau clir ar gyfer yr amgylchedd morol
2. Mecanweithiau er mwyn datrys anghydfodau o safbwynt defnydd
3. Gwell gwarchodaeth o adnoddau morol a diddordebau amgylcheddol
4. Mwy o sicrwydd ar gyfer pob cyfranogwr a defnyddiwr
5. Y gallu i gynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol
6. Sylfaen o safbwynt y pa un y gellir asesu effeithiau cronnola
7. Mecanwaith mwy cadarn ar gyfer cyfranogiad cyfranddalwyr.

Rydym yn cytuno o ran egwyddor â'r agwedd fesul rhenciau arfaethedig a gynigir yn y ddogfen ymgynghori:

- Datganiad polisi cynllun morol strategol – gyda chyfarwyddyd atodol; a
- Chynlluniau gofodol – sy'n cymryd cynnwys y datganiad polisi cynllunio i ystyriaeth ac unrhyw bolisïau, cynlluniau neu bynciau perthnasol eraill**.**

- Mae'n fater o bwys y dylai'r egwyddorion, a ddatganir uchod ym mhwyntiau 1 i 7, ar gyfer unrhyw system cynllunio morol, fod yn gyson ar gyfer pob dwfr o amgylch y DU a chaniatáu ar gyfer rheoli rhannau trawsffiniol moroedd tiriogaethol mewn dull effeithiol.

- Lle nad oes llawer o wybodaeth, neu lle nad oes ond nifer fach o bynciau ar hyn o bryd sy'n rhaid mynd i'r afael â hwy, medrai'r cynllun fod yn llai manwl ac yn llai cyfarwyddol. Dylai cynllun manwl gael ei gymhwyso'n unig i'r mannau hynny lle y bo'i angen, megis ardaloedd o weithgarwch uchel, lle mae angen gwarchodaeth neu lle medrai gwrthdaro posib fodoli.

- Rhaid i GGM gysylltu'n agos â Rheoli Parthau Arfordirol Integredig (RhPAI). Mae RhPAI yn lwfio ar gyfer cynllunio a rheoli'r arfordir mewn modd integredig, gan gynnwys sut mae'r amgylchedd yn cael ei ddefnyddio a'i ymelwa at bwrpasau diwydiannol, masnachol ac adloniadol.

- Rydym yn croesawu cyfeiriad cyffredinol Strategaeth RhPAI diweddar Cynulliad Cymru o safbwynt amlygu'r angen am agwedd integredig tuag at reoli'r ffin rhwng y tir a'r môr. Rydym yn cefnogi'r pwyslais arbennig ar yr

angen am fwy o gydweithrediad mewn partneriaeth er mwyn gweithredu RhPAI yng Nghymru. Credwn ei bod yn bwysig fod cynnig cymhellion yn rhan o ddarparu RhPAI er mwyn annog awdurdodau lleol, rheolyddion a chyrff eraill i'w weithredu.

- Rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer fframwaith CGM newydd gyd-fynd yn ogystal â'r gwaith byddem yn ei wneud er mwyn gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a rheoli perygl llifogydd ar yr arfordir. Mae rheolaeth effeithiol ar draws ffiniau rhwng y tir a'r môr yn hanfodol a rhaid i GGM gysylltu â Chynlluniau Basnau Afon y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ogystal â chynlluniau defnyddio tir.

- Rydym eisiau i unrhyw gynlluniau gofodol morol newydd hyrwyddo defnyddio'r amgylchedd morol mewn dull cynaliadwy a chyflwyno system a fydd yn caniatáu i gyfranddalwyr gymryd rhan yn broses o benderfynu.

- Dylai'r cynllun gofodol morol fod wedi'i seilio ar y data a'r wybodaeth gorau sydd ar gael.

- Bydd angen corff â'r adnoddau a'r wybodaeth arbenigol briodol i weithredu CGM.

Trwyddedu gweithgareddau morol

- Cydnabyddwn fod y system trwyddedu gyfredol yn gymhleth. Er mwyn hybu gwell rheoleiddio, rydym yn hapus i ymchwilio i symleiddio'r prosesau caniatáu a thrwyddedu yn yr amgylchedd morol.

- Mae llawer o weithgareddau sydd wedi'u seilio ar dir, gan gynnwys trin carthion, yn cynhyrchu dŵr gwastraff sydd angen ei waredu i ddyfroedd mewndirol neu arfordirol. Er mwyn sicrhau y gwneir dewis cytbwys rhwng opsiynau gwaredu mewndirol a morol, mae'n synhwyrol fod un corff unigol yn cynllunio a thrwyddedu gwaredu dŵr gwastraff er mwyn cyfyngu ar y niwed a wneir i'r amgylchedd ac er mwyn gwneud dewisiadau economaidd call.

- Rydym yn trwyddedu gollyngiadau dŵr gwastraff i ddyfroedd mewndirol ac arfordirol penodol (yn gyffredinol hyd at dair milltir fôr o'r lan) o ffynonellau wedi'u seilio ar dir o dan ofynion Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a'r Rheoliadau ARhLl.

- Mae ansawdd dŵr mewn dyfroedd arfordirol, yn arbennig y rheiny a gânt eu heffeithio gan ollyngiadau ffynhonnell pwynt mawr, yn gwella'n gyffredinol. Ym 1994, 20% yn unig o ddyfroedd ymdrochi dynodedig Cymru oedd yn cwrdd â'r safonau Canllaw yng Nghyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi'r Comisiwn Ewropeaidd. O ganlyniad i'n gwaith caled ni er mwyn sicrhau fod cwmnïau dŵr ac eraill yn glanhau eu gweithgareddau llygrol, bodlonodd 100% o ddyfroedd ymdrochi dynodedig Cymru y safonau dŵr

ymdrochi gorfodol a bodlonodd 91% y safonau Canllaw llymach yn 2005. Mae gwelliannau pellach i ansawdd dŵr arfordirol yn debygol wrth i'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr gyflywno safonau llymach fyth.

- Mae gennym rôl gynghorol a medrwn gynnig barn ond nid ydym yn un o'r rhai sy'n rhaid ymgynghori â hwy'n statudol ym mhob proses trwyddedu sy'n effeithio ar yr amgylchedd arfordirol, gan gynnwys trwyddedau'r Ddeddf Bwyd a Gwarchod yr Amgylchedd (DBGA). Byddem yn dymuno bod yn un o'r rhai sy'n rhaid ymgynghori â hwy'n ffurfiol ar gyfer unrhyw drefniadau caniatáu newydd er mwyn i ni fedru cwrdd â'n targedau statudol ac amcanion amgylcheddol o fewn 3 milltir fôr – yn arbennig ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Sefydliad Rheoli'r Môr newydd (SRhM)

- Bydd angen i swyddogaethau cynllunio gofodol morol a chyd-drefnu cyfundrefnau trwyddedu morol priodol gael eu cyflawni gan yr un corff, p'un a fydd hwn yn gorff newydd neu'n un sy'n bodoli eisoes.

- Pwy bynnag fydd yn cyflawni swyddogaethau rheoli'r môr newydd yng Nghymru, mae'n bwysig ei fod yn gweithio'n effeithiol ar draws ffiniau, ac yn cyflawni'r amcanion ar gyfer yr amgylchedd morol a gynhwysir yn Strategaeth Amgylchedd Cymru a Strategaeth Forol y DU[5].

- Mae union swyddogaethau SRhM potensial ar gyfer Lloegr a dyfroedd ehangach y DU heb eu pennu hyd yma. Medrai'r SRhM feddu ar unrhyw rai o'r swyddogaethau canlynol: yr Asiantaeth Pysgodfeydd Môr, cynllunio, caniatáu, gorfodi, dal data a gwybodaeth, a chasglu data ac ymchwil. Mae gan bob un o'r awdurdodau hyn gysylltau ac ymadweithiau gyda'n gwaith arfordirol a morol allweddol a bydd angen i chi gydweithio'n agos gydag unrhyw gorff newydd.

- O ystyried nad oes gan unrhyw awdurdod swyddogaeth statudol yng nghyswllt RhPAI, dylid rhoi sylw pellach i sicrhau fod cyd-drefnu RhPAI yn swyddogaeth graidd o'r corff sy'n darparu CGM a thrwyddedu[6].

- Mae'n bwysig fod unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau newydd dros yr amgylchedd morol yn dod â'r noddiant a chynhorthwy priodol gyda hwy.

Pysgodfeydd

- Mae llawer o bysgodfeydd môr yn dirywio o ganlyniad i orbysgota. Mae'n amlwg fod y trefniadau presennol ar gyfer rheoli pysgodfeydd môr yn annigonol.

- Pennir trefniadau cyfredol ar gyfer llawer agwedd ar bysgodfeydd môr ar y lefel Ewropeaidd drwy'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Mae'r rhain y tu hwnt i rychwant yr ymgynghoriad hwn neu, yn wir, y Mesur Morol

- Mae rheoli pysgodfeydd wrth y lan yn fater datganoledig ac mae Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn datblygu Strategaeth Pysgodfeydd Gymreig. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gyfranogwr egnïol yn y gwaith o helpu i gynhyrchu'r Strategaeth.

- Mae rheoli pysgodfeydd wrth y lan yn gyfrifoldeb Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr (Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Phwyllgorau Pysgodfeydd Môr y Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru), sy'n gweithredu dan ddeddfwriaeth sydd mewn llawer o achosion yn deillio o'r 1800au.

- Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru rymoedd Pysgodfeydd Môr yn y rhan fwyaf o forydiau o amgylch Cymru, gan gynnwys Moryd Hafren fewnol.

- Mae angen newid ar frys er mwyn mynd i'r afael â threfniadau deddfwriaethol yng ngolau'r pwysau ar bysgota a geir yn y 21ain ganrif.

- Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd gyfrifoldebau ar gyfer rhywogaethau megis Eogiaid, Sewin a Llyswennod, sy'n treulio rhan o'u bywyd mewn dŵr croyw a rhan ohono yn y môr. Mae'r rhywogaethau hyn yn mudo drwy ddyfroedd arfordirol fel pysgod ifainc ac oedolion ac ymelwir arnynt at bwrpasau masnachol (cyfreithlon ac anghyfreithlon).

- Mae'n bwysig fod sut y rheolir y rhywogaethau hyn yn gyfannol, gan gwmpasu pwysau ar ddŵr croyw ac ar y môr. Oherwydd hyn, mae angen i gyfundrefn rheoli newydd ar gyfer pysgodfeydd môr wrth y lan roi ystyriaeth lawn i anghenion y rhywogaethau hyn, yn ogystal â darparu rheolau effeithiol yng nghyswllt dalfeydd o rywogaethau sy'n gyfan gwbl forol.

- Rydym yn awyddus i barhau i weithio, fel y gwnawn ar hyn o bryd, gyda phawb o'r rheiny sydd â chyfrifoldeb dros reoli pysgodfeydd môr wrth y lan.

Cadwraeth Natur Morol

Rydym yn cefnogi'r angen am fesurau gwarchod cryfach ar gyfer cadwraeth natur morol a byddem yn croesawu:

- Rhwydwaith o Ardaloedd Môr wedi'u Gwarchod (AMG) sy'n addas i'r pwrpas ac yn diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd.

- Amcanion ecosystem morol sy'n ystyried y nodau sy'n bodoli eisoes, er enghraifft y rheiny a gawsant eu creu gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn paratoi cyngor ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt gwarchodaeth ac adferiad ecosystemau morol sydd â'n cefnogaeth lawn.

4. Crynodeb

Rydym yn cefnogi'r angen am Fesur Morol newydd ac yn dymuno ei weld yn cyflwyno:

- Cynllunio Gofodol Morol sy'n cynnwys cyfraith gadarn, gyson a fydd yn disodli'r rheoleiddio digyswllt a dryslyd sy'n bodoli ar hyn o bryd.

- Rheolaeth integredig ar draws tir a môr nad yw'n tynnu llinell artiffisial rhwng y ddau.

- System trwyddedu wedi'i symleiddio ac effeithlon.

- Rolau clir, wedi'u diffinio ar gyfer y rheiny sy'n ymwneud â rheoleiddio a rheoli'r amgylchedd morol.

- Rhaid i unrhyw drefniadau newydd ar gyfer cynllunio a rheoli'r amgylchedd morol roi ystyriaeth haeddiannol i'n rôl ni yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a rheoli perygl llifogydd strategol.

ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU

17eg Mai 2006

Cyfeiriadau

1: Adroddiad Cyflwr Amgylchedd Morol Cymru a Lloegr. Asiantaeth yr Amgylchedd, 2005
2: Charting Progress: an integrated assessment of the state of UK seas. Defra, 2005

3: Peilot Cynllunio Gofodol Morol, Adroddiad Terfynol. Chwefror, 2006. Cyfungorff y Peilot Cynllunio Gofodol Morol . 105p.
4: Arfordiroedd Glanach, Moroedd Iachach. Gweithio tuag at Well Amgylchedd Morol, Ein Strategaeth ar gyfer 2005-2011. Asiantaeth yr Amgylchedd, 2005.
5: Diogelu Ein Moroedd. Strategaeth ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy ein hamgylchedd morol. Defra, 2002.
6: Datblygu Opsiynau Rheoli Parthau Arfordirol Integredig ar gyfer Cymru a Lloegr. Rhagfyr 2005, Halcrow Group Cyfyngedig.

Memorandwm gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru

Crynodeb

Cred y Cyngor Cefn Gwlad y dylai'r Mesur Morol wneud y canlynol:

1. **Cynnig system statudol ar gyfer cynllunio gofodol morol**
2. **Gwella dulliau o warchod natur y môr**
3. **Cydgyfnerthu a gwella'r system drwyddedu sy'n ymwneud â'r môr**

Cyflwyniad

Y Cyngor Cefn Gwlad yw cynghorwr statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r wlad a dyfroedd ei glannau. Corff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw'r Cyngor Cefn Gwlad.

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi adeiladu cyfoeth o brofiadau ym maes y môr. Rydym yn cynnal arolygon yn y môr ac yn ymgymryd â gwaith monitro, gan goladu data sefydliadau eraill lle y bo'n briodol, ac mae hyn wedi ein harwain i ddysgu llawer am rywogaethau a chynefinoedd y môr ac am sut y mae ecosystemau morol dyfroedd Cymru yn gweithio. Rydym yn comisiynu gwaith ymchwil sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth o bynciau ecolegol yn ymwneud â'r môr, gan gynnwys effeithiau posibl rhai datblygiadau arbennig a dulliau rheoli gwahanol, ac mae hyn oll yn cyfarwyddo'r cyngor a roddwn i'r Llywodraeth ac i eraill. Ers rhai blynyddoedd, rydym wedi bod â rhan bwysig yn y dasg o ddynodi a rheoli safleoedd Natura 2000 morol yn nyfroedd Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r safleoedd pwysig hyn yn gorchuddio oddeutu 30% o ddyfroedd tiriogaethol Cymru a 70% o'r arfordir (gweler y map, Atodiad 1).

Gwelir bod y Cyngor Cefn Gwlad yn aelod gweithgar o Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru, ac mae'n gweithio ochr yn ochr â budd-ddeiliaid eraill er mwyn cynnig cyngor o'r radd flaenaf i Lywodraeth y Cynulliad ynghylch datblygu ein hamgylchedd morol ac arfordirol yn gynaliadwy.

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn croesawu'r ymchwiliad amserol a phwysig hwn i'r Mesur Morol. **Rydym o'r farn fod yn rhaid i ni newid y ffordd y caiff amgylchedd y môr ei reoli; mae'r Mesur Morol yn cynnig cyfle pwysig i**

sicrhau'r newidiadau hyn. Isod ceir ein safbwynt ar ddogfen ymgynghori Defra sy'n ymwneud â'r Mesur Morol, a cheisiwn bwyso a mesur y goblygiadau posibl a allai ddod i ran Cymru.

Y cefndir – cyflwr moroedd Cymru

Môr yw cyfran helaeth o Gymru, ac mae moroedd Cymru yn chwarae rhan bwysig trwy gyfrannu at ein heconomi a'n ffordd o fyw. Mae Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru wedi comisiynu astudiaeth yn ymwneud â gwerth amgylchedd arfordirol a morol Cymru. Dengys y canlyniadau cynnar fod gan 52,000 o swyddi, sef 6% o holl swyddi Cymru, gysylltiad agos ag amgylchedd arfordirol a morol Cymru, a bod oddeutu hanner y rhain yn ymwneud â'r sector twristiaeth. Mae economi ffyniannus o safbwynt y môr yn ddibynnol ar amgylchedd iach.

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn pryderu ynghylch cyflwr cyfredol amgylchedd morol Cymru a'r pwysau cynyddol a ddaw i'w ran. Er bod gwelliannau calonogol i'w gweld mewn ambell agwedd ar gyflwr yr amgylchedd morol (e.e. ansawdd dŵr Môr Iwerddon), ceir tystiolaeth gref fod tueddiadau negyddol i'w cael o ran bioamrywiaeth a iechyd cyffredinol yr ecosystem. Caiff y farn hon ei chefnogi gan adroddiad Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig ar gyflwr amgylchedd morol y DU, sef 'Charting Progress: an integrated assessment of the state of UK seas'. Er y gellir dweud bod moroedd Cymru, mewn rhai ffyrdd, mewn cyflwr da o'u cymharu â moroedd eraill y DU, fe erys yr angen i ddod â thueddiadau negyddol i ben, a'u gwrthdroi, er mwyn diogelu'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae ein moroedd yn eu darparu, a hynny yn yr hirdymor.

Ers y 1990au, mae nifer o adolygiadau pwysig wedi eu cynnal gan y Llywodraeth ar agweddau gwahanol ar reoli gweithgareddau dyn yn amgylchedd morol y DU (Atodiad 2). Dyma'r negeseuon cyffredin sydd wedi deillio o'r adolygiadau a'r adroddiadau hyn:

- mae angen diogelu mwy ar amgylchedd y môr
- mae'r drefn reoli gyfredol, a'r ddeddfwriaeth sy'n sail iddi, yn gymhleth ac wedi dyddio
- nid yw'r gyfres gyfredol o offerynnau rheoli yn ddigonol i gyflawni gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer amgylchedd y môr.

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cefnogi casgliadau'r adolygiadau hyn. Yn arbennig, rydym yn cytuno **nad yw'r offerynnau a geir ar hyn o bryd i gynllunio a rheoli gweithgareddau dyn yn amgylchedd y môr yn ddigonol – ac na fyddant yn galluogi'r Llywodraeth i gyflawni ei weledigaeth gyffredinol ar gyfer moroedd y DU a chyflawni ymrwymiadau rhyngwladol amrywiol.**

Y Mesur Morol Arfaethedig

Cydnabu'r Cyngor Cefn Gwlad fod angen deddfwriaeth newydd i gydgyfnerthu a moderneiddio cyfreithiau a geir eisoes sy'n ymwneud â rheoli amgylchedd y môr, ac i gryfhau mesurau ar gyfer gwarchod byd natur y môr. Rydym yn falch fod nifer o'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiadau a'r adroddiadau diweddar yn cael eu hystyried yn y Mesur Morol a ddatblygir, fel y nodir ym mhapur ymgynghori Defra. Cred y Cyngor Cefn Gwlad fod Defra wedi canolbwyntio ar y meysydd sy'n angenrheidiol i lunio Mesur Morol cydlynol ac effeithiol a fydd yn ei gwneud yn bosibl i gyflawni gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer amgylchedd y môr.

Fe fydd y Cyngor Cefn Gwlad yn ymateb i ymgynghoriad Defra ynghylch y Mesur Morol, gan anfon copi o'i ymateb at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â changen Polisi Morol Llywodraeth y Cynulliad er mwyn sicrhau y bydd y Mesur Morol yn gweithio i Gymru.

Diben y Mesur Morol, yn nhyb Llywodraeth y DU, fydd cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer moroedd o fewn maes ei chyfrifoldebau, yn seiliedig ar gynllunio gofodol morol sy'n cydbwyso anghenion o ran cadwraeth, ynni ac adnoddau. **Ar adeg pan mae datblygiadau o fewn amgylchedd y môr yn cynyddu'n gyflym, cred y Cyngor Cefn Gwlad fod angen fframwaith o'r fath ar frys.**

Egwyddorion Allweddol

Rhaid i unrhyw fframwaith newydd a ddatblygir ar gyfer rheoli moroedd Cymru wneud y canlynol:

- Sicrhau bod **datblygu cynaliadwy** yn gwbl greiddiol iddo
- Sicrhau ei fod yn **integreiddio** yn llorweddol ac yn fertigol â systemau rheoli perthnasol eraill
- Sicrhau mai **dulliau'n seiliedig ar dystiolaeth** sy'n ei gyfarwyddo
- Sicrhau mai'r **dull ecosystem** sy'n sail iddo
- Ceisio **symleiddio** prosesau a strwythurau rheoli a geir eisoes

Cyfleoedd a ddaw yn sgîl y Mesur Morol

Mae'r Mesur Morol yn cynnig cyfle i'n cynorthwyo i droi cefn ar ddulliau sectoraidd, cymhleth a thameidiog o ddelio ag amgylchedd y môr, gan ddefnyddio yn hytrach ddulliau integredig a strategol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Er mwyn cyflawni hyn, cred y Cyngor Cefn Gwlad fod angen deddfwriaeth fel y gellir darparu'r canlynol:

System statudol o Gynllunio Gofodol Morol sy'n integreiddio â'r system gynllunio ddaearol, ac sy'n darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r môr mewn ffordd strategol, gan nodi cyfleoedd a chyfyngiadau yn ogystal â chynnig ffordd o

integreiddio cyfrifoldebau sectoraidd. Yn hollbwysig, rhaid i fframwaith o'r fath gydnabod y buddiannau morol o safbwynt treftadaeth a thirweddau a nodir fel rhai pwysig yn rhyngwladol, yn Ewropeaidd, yn genedlaethol ac yn lleol, gan eu diogelu'n ddigonol yn ôl y gyfraith. Hefyd, trwy gyfrwng diogelwch cyfreithiol digonol, dylai'r fframwaith sicrhau y ceir ecosystemau morol iach, gweithredol a gwydn.

Ar hyn o bryd, nid yw Cynllun Gofodol Cymru yn ymdrin â moroedd Cymru. Fe fyddai ymestyn Cynllun Gofodol Cymru i 12 môr-filltir yn sicrhau y byddai blaenoriaethau a pholisïau Cymru ar gyfer ei moroedd yn cael eu dwyn ynghyd â'u cyfleu'n glir. Gellid bwydo hyn wedyn i unrhyw fframwaith ehangach a gâi ei ddatblygu ar gyfer Cynllunio Gofodol Morol. Fe fyddai cynnig mecanwaith ar gyfer pontio'r tir a'r môr trwy ymestyn Cynllun Gofodol Cymru yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau y gellir cael Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM).

Gwella dulliau o warchod byd natur y môr a gyflawnir fel rhan o system yn ymwneud â Chynllunio Gofodol Morol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu cyfres o amcanion cyffredinol ar gyfer diogelu ecosystemau'r môr (Amcanion Ecosystemau Morol) y dylai pob system reoli berthnasol eu hystyried. Gallai enghraifft o amcan o'r fath gynnwys ***'sicrhau strwythur droffig gytbwys ar gyfer y fwydwe sy'n gwneud y gorau o gynhyrchiant ac iechyd yr ecosystem'.***

Mae Ardaloedd Gwarchodaeth Morol yn offerynnau cadwraeth pwysig ac yn fecanweithiau hyblyg ar gyfer dynodi ardaloedd morol er mwyn darparu lefelau gwahanol o warchodaeth ar eu cyfer (er enghraifft gwarchodaeth aml-ddefnydd, gwarchodaeth eithaf) o fewn y DU. Yng Nghymru, mae nifer fawr o'n moroedd eisoes wedi eu dynodi fel safleoedd Natura 2000 morol (Atodiad 1), ac nid ydym o'r farn y byddai dynodi ardaloedd ychwanegol fel ardaloedd gwarchodaeth morol o unrhyw fantais. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylid dewis rhannau o'r safleoedd a geir eisoes, megis ardaloedd sy'n hynod o sensitif neu ardaloedd y dymunir eu hadfer, gan eu gwarchod i'r eithaf, ac y byddai mecanwaith newydd a hyblyg ar gyfer dynodi Ardaloedd Gwarchodaeth Morol yn gwneud hyn y bosibl. Fe fyddai cam o'r fath yn gwella ein gallu i reoli safleoedd Natura 2000 yn unol â goblygiadau dan ddeddfwriaeth Ewrop, ac felly yn caniatáu i ni geisio cyrraedd targed Llywodraeth y Cynulliad o sicrhau bod mwy o safleoedd gwarchod natur mewn cyflwr ffafriol, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol.

System Drwyddedu forol symlach a chliriach sydd wedi ei hintegreiddio'n llwyr â fframwaith Cynllunio Gofodol Morol. Gan fod y system reoli gyfredol wedi datblygu fesul tamaid ar y tro, derbynnir yn gyffredinol fod gennym yn awr systemau caniatáu cymhleth y gellir eu hintegreiddio a'u rhesymoli'n llawer gwell. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cefnogi'r syniad o ddatblygu mecanwaith caniatáu symlach a chliriach sy'n cynnig eglurhad gwell a mwy o sicrwydd i bob budd-ddeiliad, tra'n cynnwys gwarchodaeth ddigonol ar gyfer yr amgylchedd.

Dulliau mwy integredig (ac amgylcheddol-gynaliadwy) o reoli pysgodfeydd. Ar hyn o bryd, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datblygu

strategaeth pysgodfeydd môr ar gyfer Cymru, ac mae'r Mesur Morol yn cynnig cyfle i roi'r offerynnau priodol ar waith ar gyfer sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflawni. Cyfyngiad o bwys, o safbwynt dyfodol pysgodfeydd gyda'r glannau, ac o safbwynt sicrhau y gall buddiannau pysgodfeydd a gwarchod natur gydfodoli, yw'r gallu hynod gyfyngedig i reoli pysgota'n hyblyg – dylai'r Mesur Morol ddiwygio deddfwriaeth sydd wedi dyddio er mwyn darparu offerynnau rheoli pysgodfeydd sy'n addas ar gyfer y pwrpas. Mae hefyd yn cynnig cyfle i ymestyn pwerau rheoli pysgodfeydd ar gyfer Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr o 6 môr-filltir i 12 môr-filltir. Fodd bynnag, rhaid cyplysu hyn â phwerau (neu drefniadau wedi eu cyd-drafod) i reoli gweithgareddau badau 'tramor' sydd â hawliau pysgota hanesyddol rhwng 6 môr-filltir a 12 môr-filltir, yn arbennig wrth ymwneud ag ardaloedd dan warchodaeth. O safbwynt gwarchod natur, ceir angen hefyd i wella'r ffordd y caiff mesurau gwarchod bywyd gwyllt eu gorfodi; byddai integreiddio hyn â'r trefniadau gorfodi pysgodfeydd yn ddymunol.

Datganoli a blaenoriaethau ar gyfer Cymru

Yn briodol ddigon, mae'r ymgynghoriad yn cydnabod y system reoli sectoraidd gymhleth sy'n bodoli o safbwynt amgylchedd morol y DU. Yn nyfroedd Cymru, ceir cymysgedd cymhleth o bwerau wedi eu datganoli a heb eu datganoli. Eisoes, mae gan y Cynulliad bwerau'n ymwneud â rheoli moroedd Cymru, ac efallai y gall y Mesur Morol gynnig cyfle i'r Cynulliad ddatblygu'r pwerau hyn ymhellach.

Mae dogfen ymgynghori Defra ar gyfer y Mesur Morol yn nodi nad yw'r cynigion a ddatblygwyd ar gyfer yr ymgynghoriad, ar y cyfan, yn ymdrin ond â'r swyddogaethau hynny nad ydynt wedi eu datganoli. Hefyd, nodir ynddo mai cyfrifoldeb y weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol yw ystyried a oes angen cyflwyno newidiadau ai peidio pan fo'r cyfrifoldeb dros unrhyw agwedd ar weithgareddau morol cyfredol wedi eu datganoli (paragraff 5.6). Ar yr un pryd, mae'r Cyngor Cefn Gwlad a budd-ddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru wedi cael eu hannog gan Lywodraeth y Cynulliad i ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn cynorthwyo i ddatblygu Mesur Morol a fydd yn cydnabod ac yn ystyried y gwahaniaethau a'r anghenion arbennig sydd gan Gymru a budd-ddeiliaid y wlad.

Yng Nghymru, mae datganoli'n ein galluogi i bennu ein blaenoriaethau ein hunain ac i chwilio am ein hatebion ein hunain i broblemau. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cefnogi'r broses ddatganoli'n llwyr, yn ogystal â'r egwyddor sydd ynghlwm wrth gyfrifolaeth. Ar hyn o bryd, nid yw'n eglur pa opsiynau polisi o blith y rhai a amlinellir yn yr ymgynghoriad y dymuna Llywodraeth y Cynulliad fwrw ymlaen â nhw, a sut. Fodd bynnag, mewn ambell achos mae'n gwbl glir fod Cymru yn debygol o fod â blaenoriaethau gwahanol o ran sicrhau y bydd dulliau rheoli amgylchedd morol Cymru yn gwella, o'u cymharu â blaenoriaethau Llywodraeth y DU (er enghraifft, nid ydynt mor frwdfrydig dros gael mwy o Ardaloedd Gwarchodaeth Morol y tu hwnt i'r dynodiadau presennol); neu efallai y bydd Cymru yn datblygu dull polisi gwahanol (er enghraifft, dod â pholisïau a dulliau cyflawni ynghyd, yn hytrach na'u gwahanu).

O safbwynt y Mesur Morol, mae trefniadau datganoli'n hynod o berthnasol i'r dasg o ystyried a oes angen corff morol newydd (Sefydliad Rheolaeth Forol) er

mwyn cyflawni polisi'r Llywodraeth. Yng Nghymru, mae'r Cynulliad wedi cadarnhau nad yw'n bwriadu creu asiantaeth forol newydd. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn edrych ymlaen at gyfrannu at drafodaethau'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau newydd a grëir gan y Mesur Morol ac a fydd yn berthnasol i Gymru.

Ni waeth be fo'r dull a gaiff ei fabwysiadu yng Nghymru a'i roi ar waith trwy gyfrwng y Mesur Morol, y canlyniad yw'r peth pwysig. Ni waeth pa bolisïau a roddir ar waith ar gyfer Cymru a'r DU, **credwn fod yn rhaid i'r fframwaith a gaiff ei sefydlu fod yn symlach ac yn fwy effeithiol na'r system bresennol. Er mwyn llwyddo i wneud hyn, rhaid i'r dull a gaiff ei fabwysiadu gan y Cynulliad Cenedlaethol ategu dull Llywodraeth y DU, gan integreiddio'n effeithiol ag ef, a rhaid iddo ystyried dimensiynau Ewropeaidd a rhyngwladol yn ogystal.** Mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r angen i nodi'r ffordd orau o sicrhau y ceir dull cyfannol o ran rheoli moroedd Cymru fel rhan o amgylchedd morol y DU sydd, yn ei dro, yn rhan o amgylchedd morol Ewrop a gogledd-ddwyrain Môr Iwerydd. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau y bydd y Mesur Morol yn gweithio i Gymru.

<u>Atodiad 1:</u> Map yn dangos Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol yng Nghymru.



<u>Allwedd</u>

ACAy/yACA morol

 **ACA morol**

Atodiad 2: Adolygiadau diweddar ar reoli amgylchedd y môr

The Review of Marine Nature Conservation – Working Group Report to Government. Defra, 2004.

Regulatory Review of Development in Coastal and Marine Waters, DfT, 2002.

Net Benefits – a sustainable and profitable future for UK fishing. Prinme Miniter's Strategy Unit, 2004.

Review of Marine Fisheries and Environmental Enforcement. Defra, 2004.

UK Parliamentary Select Committee on Environment, Food and Rural Affairs' Report on the Marine Environment, 2004.

Turning the Tide: Addressing the impact of fisheries upon the marine environment. Royal Commission on Environmental Pollution, 2004.

Annex 2

Trawsgrifiad o Drafodion y Pwyllgor

Mae'r trawsgrifiad o drafodion y Pwyllgor yn ddogfen ddwyieithog. Gweler y fersiwn Saesneg o'r adroddiad hwn.